# galeri



Cylchgrawn Digidol • Digital Zine

Rhifyn 1 • Issue 1

Croeso i gylchgrawn digidol Galeri,

Gyda sefyllfa Covid 19 yn gwella bob dydd mae hi'n parhau i fod yn ansicr pa bryd y cawn ail-agor Galeri i'r cyhoedd.

Pwrpas y "zine" yma ydi i gynnig ychydig o erthyglau/eitemau diddorol (gobeithio) am yr hyn rydym ni wedi bod wrthi yn ei wneud yn ystod y cyfnodau clo gan hefyd son mwy am arlwy celfyddydol a chreadigol Caernarfon a thu hwnt.

Dyma'r rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn digidol, gyda'r bwriad o allu cyhoeddi rhain yn ddigidol yn rheolaidd. I ni allu creu cylchgrawn sydd yn apelgar i chi, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cysylltu gyda'ch:

- Adborth am y cynnwys a fformat
- Syniadau ar gyfer eitemau/erthyglau yn y dyfodol
- Cynnig i gyfrannu mewn unrhyw ffordd – erthygl, hyrwyddo digwyddiad/mudiad ayyb

I rannu eich barn, gellir anfon neges breifat ar Facebook, Twitter, Instagram neu drwy ebostio zine@galericaernarfon.com

Tîm Creadigol Galeri

(Naomi / Rebecca / Steffan / Dion)

Welcome to Galeri's digital zine,

It seems there is light at the end of the tunnel in the fight against Covid (long term), however, as a venue we still do not have any guidance or firm dates as to when we will be allowed to re-open Galeri to the public.

The purpose of this zine is to provide you with some interesting and different articles/features to provide you with an insight into some of what we have been up to during the lockdown(s) and to showcase some of the creative community we have in Caernarfon and beyond.

This is the first in what we hope will become a regular zine. For us to be able to provide you with engaging e-zine, we would appreciate your comments with regards to:

Feedback regarding content/format -
Ideas on possible features/editorial items in the future -
Offering to contribute in any way – editorial/feature, promoting an event/society etc -

To contact us with your suggestions and comments, please send a private message on Facebook, Twitter, Instagram or email us on zine@galericaernarfon.com

Galeri's Creative Team

(Naomi / Rebecca / Steffan/ Dion)

# Cynnwys / Contents


| | |
|---|---|
| Portffolio | 4 |
| Codi'r bar | 5 |
| Cei Llechi | 6 |
| Dod i nabod / Get to know | 8 |
| Gofod Creu | 10 |
| Gwylio o adref / Watch from home | 24 |
| Gorwelion / Horizons (BBC) - Independent Venue Week | 26 |
| Cyfleoedd Galeri / Opportunities at Galeri | 27 |
| Lles / Welfare | 28 |
| Gweithgaredd i blant / Children's activity | 30 |
| Her / Challenge | 35 |
| AilGREU | 36 |




GOFODCREU






CEI LLECHI












. CREU
. CELF
. YSBRYDOLI
. DYSGU
. DATBLYGU

# portffolio

CODI'R
RAISING THE BAR

MAKE .
ART .
INSPIRE .
LEARN .
DEVELOP .





Cyrsiau celf ar gyfer pobl ifanc o Wynedd a Môn dan arweiniad artistiaid gwadd ysbrydoledig...

Visual art workshops for young people from Gwynedd and Anglesey led by inspirational guest artists...



## Portffolio

I'r rhai sy'n astudio celf:
TGAU (14-16 oed)

For individuals studying art for:
GCSE (ages 14-16)

Cwrs ar-lein mis Fawrth ac Ebrill | Online course March and April 2021

£40 y person | per person

Cwrs Dwyieithog | Bilingual Course

## Codi'r Bar

I'r rhai sy'n astudio celf:
Lefel A (16-18 oed)

For individuals studying art for:
A Level (ages 16-18)

I gofrestru erbyn 08/03/21 ac am fwy o fanylion | To register by 08/03/21 your interest and for further details:

rebecca.hardy-griffith@galericaernarfon.com

Cyngor Gwynedd Council
Oriel Môn
Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Ariennir gan y Loteri Lottery Funded
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

# CEI LLECHI

Ers Hydref 2018, mae'r gwaith o glirio, cynllunio ac adfywio safle Cei Llechi wedi bod yn mynd yn ei flaen gyda'r bwriad o ddod a diwydiant/manwerthu i'r rhan bwysig yma o Gaernarfon.



Galeri sydd yn gyfrifol am reoli y prosiect cyffrous hwn ar ran y perchnogion – Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon a Galeri fydd y lesddeiliaid yn gyfrifol am redeg a rheoli'r safle ar ddiwedd y cyfnod adeiladu.

Mae'r prosiect gwerth £5.9miliwn wedi bod yn heriol gan bod y gwaith adfywio yn gyfuniad o achub unrhyw hen adfaelion/adeiladau y safle ac adeiladu strwythurau newydd o'u cwmpas i greu:



- **19 uned busnes (cynhyrchu a manwerthu)**
- **3 llety gwyliau (hunan arlwyo)**
- **Ystafell gyfarfod**
- **Arddangosfa rhyngweithiol hanes Cei Llechi**

Bydd Cei Llechi yn agor ar ei newydd wedd yn ystod Haf 2021 ac yn cynnig cartref newydd i fusnesau creadigol a masnachol gan ddod a diwydiant (er ar raddfa wahanol i'r hen oes) yn ôl i'r safle.

Ariennir y prosiect gan y Gronfa Dreftadaeth (Loteri), Llywodraeth Cymru, Cadw, Cyngor Gwynedd ac Ymddiriedolaeth yr Harbwr, Caernarfon.

Am ymholiadau uned(au) ac i ddatgan diddordeb:
ceillechi@galericaernarfon.com // ceillechi.cymru


CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND
YMDDIRIEDOLAETH HARBWR CAERNARFON · CAERNARFON HARBOUR TRUST
CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
Cadw
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Since Autum, 2018 the work of regenerating the Slate Quay's "island site" has been taking place in what will bring manufacturing/retail back to this important site in Caernarfon.



Galeri have been acting as project managers on behalf of the owners  Caernarfon Harbour Trust and once construction is completed, Galeri will take over the leasehold of the site and will be responsible for the management and day to day running of Cei Llechi.

The £5.9million project has been a challenging one as we have been salvaging buildings/structures and adding new structures on the site to create:



**- 19 business units (manufacturing & retail)**
**- 3 holiday lets (self catering)**
**- Interactive exhibition on the history of Cei Llechi**
**- Meeting Room**

Tying the old and the new, modern-day Cei Llechi will open during the Summer of 2021 and will offer a place to create, experience and buy and sell - bringing manufacturing (albeit on a smaller scale to the olden days) back to this area of the town.



The regeneration project has been financially supported by the Heritage Fund (Lottery), Welsh Government, Cadw, Gwynedd Council and Caernarfon Harbour Trust.

For details regarding the units and to express an interest: ceillechi@galericaernarfon.com // ceillechi.cymru

# Dod i nabod / Get to know

**Naomi Saunders**
**Arweinydd Tîm Creadigol Galeri**

Dechreuodd Naomi ei gyrfa yn Galeri ddwy flynedd yn ôl yn gweithio fel rhan o'r adran farchnata, cyn symud yn ei blaen i arwain y Tîm Creadigol ym mis Ebrill 2020.

"Dwi wastad wedi bod yn berson creadigol - dechreuais gael gwersi canu ac actio pan oeddwn i'n 9 oed ac roeddwn i'n gwybod bryd hynny fy mod eisiau dilyn gyfra yn y celfyddydau. Er i mi astudio Newyddiaduraeth a Llenyddiaeth Saesneg yn y brifysgol, roedd cerddoriaeth ac actio dal yn rhan bwysig o fy mywyd - roeddwn i'n gweithio ar y bar yng Nghlwb Ifor Bach oedd yn galluogi i mi brofi gymaint o dalent bob wythnos, ac yn cael gwefr o weithio yng nghanol bwrlwm creadigrwydd.

Es ymlaen i greu cerddoriaeth adra gyda fy mhartner a'm ffrindiau a phan oeddwn i'n 23 oed, roeddwn yn andros o ffodus i gael ymuno â band Gwenno Saunders yn canu a chwarae *synths*, gan deithio dros Prydain ac Ewrop a chael chwarae gyda rhai o'm arwyr mewn lleoliadau anhygoel. Un o'r uchafbwyntiau i mi oedd cael perfformio ar raglen Jools Holland, oedd wedi bod yn freuddwyd i mi ers i mi fod yn hogan fach! Roedd pawb yn cymryd yn ganiatàol fy mod yn chwaer i Gwenno gan ein bod yn rhannu'r un cyfenw, ond cyd-ddigwyddiad llwyr oedd hynny!"





Mae Naomi hefyd yn hoff o ffotograffiaeth ac wedi treulio'r 2020 yn dysgu'r grefft o dynnu lluniau yn defnyddio ffilm ar gameràu analog. "Mae chwarae efo analog yn fy ngorfodi i arafu, stopio a dadansoddi lot mwy nag oeddwn yn ei wneud o'r blaen. Mewn byd lle mae pob dim wedi ei olygu i fod mor berffaith, mae'n reit neis cael y rhyddhad o dderbyn pethau fel y maent pan dwi'n defnyddio ffilm."



Mae Naomi yn treulio ei hamser adra yn tyfu bwyd a phlanhigion ty.
"Dwi wrth fy modd yn tyfu ffrwythau a llysiau adra - mae bod ychydig yn fwy hunan-gynhaliol wir yn helpu'r blaned ac maen nhw'n blasu gymaint gwell na'r holl fwyd sydd mewn pacedi plastig mewn siopau!
Dechreuodd yr hobi o gasglu a thyfu planhigion ty rhyw bum mlynedd yn ôl pan oedd gen i rhyw un neu ddau... Dwi wir yn mwynhau gweld gwyrddni o fy nghwmpas a cael dysgu gymaint am y ffordd mae pethau'n tyfu a sut i edrych ar eu holau. Wrth i'r obsesiwn dyfu, mae'r casgliad wedi tyfu lot... Erbyn hyn dwi'n meddwl bod gen i dros 100! Dwi'n meddwl fy mod i'n dechrau cael enw fel y 'Crazy Plant Lady' Cymraeg. Ond nai ddim gwrthwynebu!"





# GOFODCREU

Mae Gofod Creu yn Galeri yn gyfle i ymarferwyr creadigol gael defnyddio cyfleusterau Galeri er mwyn ymarfer neu ddatblygu gwaith.

Gyda diolch i gefnogaeth Cronfa Adfer Cyngor Celfyddydau Cymru (drwy Lywodraeth Cymru), rydym wedi gallu cynnig ystafelloedd/gofodau yn rhad ac am ddim wrth i ni ail-agor yr adeilad a'r rhaglen artistig/adloniant yn raddol.

Dros y misoedd diwethaf, mae sawl ymarferwr wedi gallu manteisio o'r prosiect - cymerwch sbec ar y tudalennau canlynol er mwyn dod i nabod rhai ohonynt...

Gofod Creu at Galeri is an opportunity for creative practitioners to utilise Galeri's facilities to rehearse or develop work.

Thanks to the support of Arts Council of Wales' Cultural Recovery Fund (as part of Welsh Government's emergency fund), we have been able to offer our spaces to the creative community free of charge as we re-open Galeri and continue to plan our artistic/events programme moving forward.


Over the past few months, multiple practitioners have participated in the project - take a look at the next few pages to get to know some of them...

# Ystadegau gofod creu (Tachwedd - Chwefror)
# Gofod creu stats from (November - Febuary)

| | |
|---|---|
|  | 63 artist/gweithiwr creadigol wedi cymryd rhan<br><br>63 artist/creative freelancer participated |
| **166** | Sesiwn wedi ei gynnal<br>Sessions provided |
|  | 42 wythnos o breswyliadau i artistiaid celf/crefft (mewn 3 gofod)<br>42 weeks of resindency provided to visual/craf artists (in 3 spaces) |
|  | Cerddorion \| Musicians<br>Perfformwyr \| Performers<br>Awduron \| Writers<br>Artistiaid Celf \| Visual artists<br>Dawnswyr \| Dancers<br>Fforograffwyr \| Photographers |

# HOLY RHYS

Treuliodd Rhys Grail mis Ionawr yn Gofod Creu yma yn Galeri. Mae Rhys yn gyn-fyfyriwr Prifysgol Birmingham lle astudiodd Ffotograffiaeth. Erbyn hyn mae gan Rhys sawl teitl, dylunydd graffeg, argraffydd sgrin, paentiwr, artist tatŵ ac yn gerddor. Yn ystod ei gyfnod yma, canolbwyntiodd Rhys ar argraffu sgrîn ar raddfa mwy ar gyfer arddangosfa sydd ar y gweill. Edrychwn ymlaen i weld gyrfa Rhys yn datblygu fel artist.





Rhys Grail spent his time in January at Gofod Creu. He is a graduate from Birmingham University where he studied Photography. By now Rhys has several titles as a photographer, painter,graphic designer, screen printer, tattooist and musician. During his time here Rhys hoped to concentrate on his screen priniting and working on a larger  scale for his upcoming exhibition. We look forward to following his exciting journey and career.

holyrhys.com

# A L E X MORRISON

"I am a film photographer. I used my time at Galeri to really get to grips with my equipment and to learn how to really optimise my techniques by conducting controlled trial and error experiments. One main goal I wanted to achieve was to learn how to use a flash for indoor portraits and concert photography in low lighing. I did this by setting up my cameras on a tripod and photographing a scene which I'd set up using different films, lighting, cameras and auxilliary equipment such as gels and prisms. I set up a document on my computer and noted each setting used for each particular frame. I can now look at my rolls of film and refer back to my chart to see which settings were used to take a particular photograph.

I took this time to also try out some new techniques such as double exposures and shooting with coloured gels over the flash".



Here are some examples of my work from my time spent at Galeri.













@lyrafilm

# LLŶR ALUN

Wrth addasu i'r pandemig, penderfynodd Llŷr Alun i greu arddangosfa ar-lein. Roedd yr arddangosfa ar gael am gyfnod o wythnos gyda nifer o artistiaid gwahanol. // Llŷr Alun adjusted to the pandemic by curating an online exhibition featuring several guest artists.












Dyma rai o'r artisitiaid dewisodd Llŷr Alun ar gyfer ei arddaingosfa //
Here are some of the artists that Llŷr Alun chose for his exhbition.









**Llŷr Alun**
**Christopher Higson**
**Grug Muse**
**Pedr Parsonson**
**Mirain Fflur**
**Daniel Pritchard**
**Lyra Film**
**Samuel Verdin**










@llyralun

# DION JONES




**Baxter Dury**
**The Night Chancers**




**Billy Nomates**
**Billy Nomates**




**Yr Eira**
**Map Meddwl**




**Kelly Lee Owens**
**Inner Song**

Roedd Dion Jones o'r band Alffa yma yn defnyddio Gofod Creu er mwyn ysgrifennu fwy o gerddoriaeth. Tra roedd o yma dewisodd ei hoff albymau o 2020, ewch i wrando! // Dion Jones from the band Alffa was here to write some new music. Whilst he was here he chose his favourite albums from 2020, check them out

# CLARE MARIE BAILEY

"Oedd cael bod yn rhan o Gofod Creu yn wych a chael gweithio mewn lle mor anhygoel â Galeri.

Cefais y syniad o fod ar ben fy hun mewn sinema. Ac fe wnaeth hyn arwain at archwilio i mewn i emosiynau gwahanol o fewn gwylio ffilm. Yna mae'r lluniau yn cyfleu'r gynulleidfa ar ffilm. Cefais fy ysbrydoli gan Italian Giallo a Scorsese".










"It was great to be part of Gofod Creu and to have the opportunity from Galeri to be able to create art work in such a fantastic space that would not have been possible without the project.

I had the idea of being alone in a cinema which then mutated into how the experiance of the cinema can impact all your emotions and range from sadness to fear depending on what is presented on the screen. I then become both the audiance and the film and was influenced by both Italian Giallo and Scorsese for this body of work".

@claremariebailey

# HANNAH A JASMINE CASH

**Dyma sgwrs sy'n cael ei arwain gan aelod o dîm creadigol Galeri, Rebecca Hardy-Griffith gyda'r artist gweledol Hannah Cash a'r ddawnswraig Jasmine Cash.**

R - Y darn cyntaf gwelais o dy waith Hannah oedd y darn yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst, lle roeddet ti efo gofod tywyll yn taflunio delweddau ar draws darnau pren?

H - Ia gwahanol bren, efo gweadau gwahanol/tyllau a phlastig.

R - Roedd y gofod yn ddiddorol, doedd?

H - Roedd o'n ofod bach yn 'awkward' i'w ddefnyddio, ro'n i'n gorfod rhoi popeth ar ongl i'r projector weithio yn iawn.

R - Mae bron fel 'happy accident' felly? Oherwydd wnes i fwynhau'r ffaith bod y gofod yn gul a'r delweddau yn torri i fyny. Dwi'n un o'r bobl na sydd yn hoffi crwydro mewn gosodiad felly un o rai '*annoying*' ac oherwydd yr onglau oni eisiau crwydro i'r pen er mwy gweld y ddelwedd.

J - Dyna dwi'n hoffi hefyd, pan dwi'n edrych ar waith celf pobol eraill, dwi'n hoffi cerdded o gwmpas pethau.

R - Yn enwedig efo gwaith fideo, pan maen nhw rhoi mainc/cadair ti'n gwybod na o'r ongl yna ti fod i sefyll/ista a gwylio. Ond i fi efo'r darn yma efallai oedd hyn yn 'happy accident' gwych ond oherwydd bod o ar ongl a'r delweddau yn cael ei thaflunio ar wahanol weadau oni'n teimlo fy mod yn cael fy nhynnu mewn i'r gwaith. Fel hyn wyt ti fel arfer yn gweithio?

H - oedd y darn yna o sioe gradd, roedd y gofod gwreiddiol mwy fel siâp sgwâr efo 4 sgrin felly trwy'r wythnos yr oll oeddwn  yn ei wneud oedd chwarae efo'r gofod ac yn pryderu bod hyn ddim yn gweithio yn iawn.

R - Mae 'na rywbeth am y gwead gwahanol sydd yn cael ei weld yn eich gwaith fideo newydd, soniwch am eich gwaith newydd...

H - Mae'r gwaith wedi newid dipyn ers yr Eisteddfod dwi'n meddwl.

J - Oherwydd Covid dwi'n meddwl ein bod ni'n gweithio dipyn mwy efo ffilm oherwydd ein bod ni methu gweithio efo pethau eraill.

H - Ia a lot o'r gwaith yda ni wedi cael ein comisiynu ar ei gyfer yw gwaith ffilm a hefyd mae lot o'r gwaith wedi bod yn waith perfformio a ffilmio fel y darn gyda Pontio/Codi Pais ym Mangor. Roeddem ni'n fod i wneud prosiect o 5 diwrnod fel preswyliad bach ond yn y diwedd oherwydd Covid roedd o'n 3 awr i neud ffilm. Dwi'n meddwl weithiau mae'r amgylchiadau yn newid…

J - Yndi mae'n newid be ydan ni'n cael neud. Ond dwi'n meddwl bod hwn (Gofod Creu) yn dda oherwydd tyda ni ddim yn cael ein talu i neud rhywbeth felly mae 'na amser i greu be ydan ni eisiau ac yn hoffi ei wneud.

R - Wrth gwrs, dyna beth yw'r prif bwrpas y prosiect, mae ystafelloedd Galeri yn wag ar hyn o bryd. Mae o'n well gweld pobol greadigol yn defnyddio'r gofod i ymarfer, arbrofi a datblygu syniadau.

J - Rydym ni wedi arfer gweithio tu allan gan nad oes gennym stiwdio. 'Da ni hefyd wedi gwneud lot o ffilmiau tu mewn, mewn lleoliadau gwahanol. Dyna beth sydd wedi dylanwadu ni i greu be ydan ni wedi bod yn gwneud. *Just* cael mynd tu allan i gael awyr iach.









# M E N A I ROWLANDS

Be sydd ar dy feddwl? What's on your mind?

Cyfres o waith arbrofol yn archwilio themâu o ganfyddiad, hunaniaeth ac atgofion trwy gyfryngau amrywiol // A series of work exploring themes of perception, identity and memories through various mediums.











@menai.designs.dyluniadau

# MARIAN GRACE JONES




"Wel...ddim yn siŵr be i'w ddweud yn ychwanegol i'r ffaith nad ydw i wedi codi brws paent ers gadael coleg pan yn fy ugeiniau cynnar. Dipyn o amser yn ôl erbyn hyn, heblaw i baentio gyda fy mhlant.



Dwi wedi bod mewn rôl athrawes, gwraig a mam felly heb gael llawer o amser i fy hun tan llynedd pan ddigwyddodd y cyfnod clo. Ar ôl bod adref am fisoedd, yn gofalu am y teulu, coginio a sicrhau fod pawb yn gwneud ei waith ysgol cefais y rhyddid i ddechrau crwydro. Mi nes i ddechrau cael pleser wrth gerdded at y goeden hyfryd sydd wrth ymyl yr eglwys ym Mhorth y Gest. Roedd o yn fy nenu rhywsut pob dydd. Wedyn nes i ddechrau nofio yn y môr mewn gwahanol leoliadau o gwmpas yr ardal, o draeth Cricieth, Nefyn, Llanbedrog, Aberdaron i Dinas Dinlle, a pob tro roeddwn wrth y môr roeddwn i'n teimlo ryw ryddhad mawr, yn ymlacio ac yn dechrau teimlo mwy fel fi'n hun nac ydw i wedi gwneud ers blynyddoedd. Nes i ddechrau paentio ar gynfas efo olew ac am y tro cyntaf er dipyn cefais flas unwaith eto a chodais fy mrws paent. Yna mi welais fod Galeri yn cynnig ystafell neu stiwdio i artistiaid am gyfnod o greu. Wel, nes i erioed ddychmygu y byswn i yn ddigon da neu ddigon lwcus i gael ystafell ond roeddwn yn ysu i greu ar raddfa fawr fel nes i'n coleg, a dyna ddigwyddodd! Cael mis o greu, mis o ddod i adnabod fi fy hun fel 'Marian', nid fel mam a gwraig, ond fel fi fy hun! Y therapi gorau erioed, cael paentio o fore gwyn tan nos mewn awyrgylch tawel a hyfryd.




Dwi rŵan yn pwytho darn bach o'r gwaith pob nos a'i gwiltio fel bod rhai darnau yn cael eu hamlygu. Mae hyn yn nefoedd hefyd er yn anoddach i'w wneud adref! Heblaw am y cynnig arbennig yma i gael lle i greu byswn i byth wedi cael gwneud hyn. Cyfle amhrisiadwy, gallai ddim diolch digon i bawb a fu mor garedig wrtha i yn ystod fy nghyfnod acw".

# ENDAF

Mae Endaf wedi defnyddio Gofod Creu er mwyn cydweithio efo gwahanol artisitiaid. Rhai o'r artistiaid oedd Dion Jones(The Routines), Malan, Dafydd Hedd a Ffion Emyr. Bydd y traciau allan cyn diwedd y flwyddyn.

Endaf used Gofod Creu to work with different artists such as Dion Jones (The Routines), Malan, Dafydd Hedd and Ffion Emyr. The tracks will be out by the end of the year.



endaf.co.uk

# Ffilmiau i'w llogi
# Films to rent

Wrth i'r sinema barhau i fod ar gau, rydym yn cydweithio hefo dosbarthwyr i gynnig gwasanaeth llogi ffilmiau gallwch wylio adra. Fel rhan o'r cytundeb, bydd Galeri yn derbyn 50% o'r pris llogi. Y ffilmiau sydd ar gael ar hyn o bryd yw:

As the cinema remains closed, we have been working with distributors to offer an online film hire service for you to watch at home. Galeri will receive 50% of the film hire cost. Currently available to hire are:




## Away
**(U)**

**£4.99**

Ar gael tan / Available until 31.03.2021




## Synchronic
**(18)**

**£13.99**


Ar gael tan / Available until 31.03.2021




## Best Of ShAFF
**(12A)**

**£9.99**

Ar gael tan / Available until 18.03.2021




## Assassins
**(12A)**

**£9.99**


Ar gael tan / Available until 31.03.2021




## Feminista
**(12A)**

**£9.99**

Ar gael tan / Available until 31.03.2021




**galericaernarfon/gwylioadra**
**galericaernarfon/watchathome**

# Gair o Gariad

Mae Cwmni Theatr Bara Caws wrth eu bodd yn cael cyflwyno sioe rithiol Gair o Gariad i chi.

Addasiad Cymraeg o Love Letters Straight From Your Heart yw Gair o Gariad, a bob tro mae Bara Caws wedi cyflwyno'r sioe hon ar lwyfan yn y gorffennol mae'r cynulleidfaoedd wedi eu swyno. Yn ystod y dyddiau dyrys yma 'rydym am eich gwahodd i gyd-gyfarfod mewn modd unigryw mewn cyfnod lle mae cyd-gyfarfod go iawn yn amhosib.

Wrth archebu eich lle ar gyfer y perfformiad cewch gyfle i gyflwyno cais am gân i rywun arbennig - cariadon a phartneriaid, gwŷr a gwragedd, rhieni, teuluoedd, ffrindiau - gan ysgrifennu pwt ynglŷn â pham dewis y gân arbennig honno ac yn ddigon posib bydd y gân a'r cais yn cael eu chwarae yn ystod y sioe. Dyma'ch cyfle i yrru neges hynod o bersonol i rywun mewn cyfnod od o amhersonol - a chewch fod yn ddienw os dymunwch.




**06.03.21 @ 20:30**
**10.04.21 @ 20:30**
**01.05.21 @ 20:30**

**Tocyn / Ticket**
**£10**

Cwmni Theatr Bara Caws are delighted to be present a live online show of Gair o Gariad (a Welsh language adaptation of Love Letters Straight From Your Heart)

Your hosts, Lleuwen Steffan (who will be joining from Brittany) and Carwyn Jones (in Cardiff) will welcome you with a glass of sparkling wine (or water), and then, through music, their love story unfolds.

galericaernarfon.com

# Independent Venue Week Gorwelion / Horizons










**Pleser oedd cael BBC Gorwelion yma ar gyfer Independent Venue Week. Gwyliwch y cyfan ar BBC iPlayer // It was a pleasure to have BBC Horizons here for Independent Venue Week. Watch it back on BBC iPlayer.**




GORWELION
HORIZONS

INDEPENDENT
VENUE WEEK

# Cyfleoedd Galeri
# Opportunities at Galeri

## Tîm Creadigol: Galeri yn y Gymuned
## Creative Team: Galeri in the Community




Eisiau gwneud gwahaniaeth yn y gymuned?
Want to make a difference in the community?

Dyddiad Cau:12:00 (hanner dydd), dydd Gwener 26.03.21
Dyddiad Cyfweld: Wythnos 12.04.21
Swydd i ddechrau: Mai 2021
Cyflog: £20,000 - £23,000

Am fwy o wybodaeth/for more information:
galericaernarfon.com

## Galwad am weithwyr llawrydd / Call for freelancers


Rydym yn awyddus derbyn CV gweithwyr llawrydd fyddai'n gallu gweithio efo'r cwmni yn y dyfodol.

Os ydych yn weithiwr llawrydd yn y diwydiannau creadigol (celf, cerddoriaeth, ffilm, perfformio, dylunio, technegol ayyb) cysylltwch ar ebost yn cyflwyno eich hyn ac atodwch CV i sylw: steffan.thomas@galericaernarfon.com

We would like to hear from any freelancers interested in working with Galeri in the future.

If you are a freelancer working in the creative industries (art, music, film, performing, design, technical etc) please send us an email with an introduction and CV attached to: steffan.thomas@galericaernarfon.com

## Unedau gwaith ar gael yn Galeri
## Work units available at Galeri



17m2+

Am fwy o fanylion | For further information:

eiddo@galericaernarfon.com



# LLES
# WELLBEING

Fel  Tîm Creadigol Galeri penderfynwyd rhannu ychydig o wybodaeth amdanom sydd yn gwneud i ni deimlo yn dda/ymlacio. Dyma 5 cân a 3 gweithgaredd sydd yn ein gwneud yn hapus/gwneud i ni ymlacio // We, the Creative Team here at Galeri, have decided to share some songs and activities thats makes us happy/relax.

## REBECCA HARDY GRIFFITHS
## TîM CREADIGOL - CELF A CHREFFT / ARTS AND CRAFTS




- Bath poeth efo llwyth o swigod / Hot bath with plenty of bubbles
- Cerdded i'r Carneddau / Hiking
- Prosiect bach creadigol / Work on a creative project

## DION JONES
## TîM CREADIGOL - MARCHNATA DIGIDOL / DIGITAL MARKETING



- Rhedeg / Running
- Cerdded mynyddoedd Eryri / Hiking the mountains of Eryri
- Tyrchu drwy fy nghasgliad o finyl / Looking through my vinyl collection

## NAOMI SAUNDERS
## ARWEINYDD TîM CREADIGOL / CREATIVE TEAM LEADER



- Edrych ar ôl planhigion tŷ / Looking after house plants
- Tynnu ffotograffau / Taking photographs
- Gwrando ar podlediadau / Listening to podcasts

## STEFFAN THOMAS
## CYFARWYDDWR CREADIGOL / CREATIVE DIRECTOR



- Gwylio chwaraeon / Watching sports
- Treulio amser efo'r teulu / Spending time with my family
- Gwylio'r teledu a ffilmiau / Watching films and television programmes

**Rebeca Hardy Griffiths - Dewisiadau caneuon / song choices**




Pressure Drop - Toot + the Maytals
Standing in the way of control - Gossip
She's Electric - Oasis
Good as Hell - Lizzo
Gyrru gyrru gyrru - Gruff Rhys

**Dion Jones - Dewisiadau caneuon / Song choices**




Oh I Miss her so – Holy Hive
Lawr yn y ddinas fawr – Carwyn Ellis a Rio 18
Treasure – Aldous Harding
Put a flower in your pocket - The Arcs
Stay High – Brittany Howard

**Naomi Saunders - Dewisiadau caneuon / Song Choices**




Dreams Tonite - Alvvays
Siom - Bitw
Bisou Magique - Melody's Echo Chamber
Inspector Norse - Todd Terje
Random Rules - Silver Jews

**Steffan Thomas - Dewisiadau caneuon / Song choices**




Arnofio/Glo In The Dark - Super Furry Animals
Patio Song - Gorky's Zygotic Mynci
Bohemian Like You - The Dandy Warhols
Riders on the Storm - The Doors
Cân i Gymry - Datblygu

# Clwb Celf @

## (I blant/for children)


galeri

**Byddwch angen**
- Papurau lliw
- Sisiwrn
- Glud PVA neu stic glud
- Brwsh
- Pensal
- Ffeltipiau



**You will need:**
- Colourful papers
- Scissors
- PVA glue or glue stick
- Brush
- Pencil
- Feltips

**Cam 1.**
Gan ddefnyddio'r pensil a'r papur lliw, lluniwch 5 siâp adar. Gallwch ddefnyddio'r templed sydd ar gael os ydych chi eisiau. Ceisiwch ddefnyddio papur o wahanol liwiau ar gyfer gwahanol adar.



**Step 1.**
Using the pencil and coloured paper draw 5 shapes of birds. You can use the template available if you want. Try and use different coloured paper for different birds.

**Cam 2.**
Gan ddefnyddio siswrn, torrwch siapiau'r adar allan yn ofalus, gwnewch yn siŵr bod oedolyn yn eich helpu gyda hyn.



**Step 2.**
Using a pair of scissors cut the bird shapes out carefully, make sure an adult helps you with this.

**Cam 3.**
Gan ddefnyddio'r pensil a'r papur lliw, lluniwch 5 adain, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio papur o wahanol liwiau. Meddyliwch am wahanol siapiau, hanner cylch, triongl, hirgrwn, diemwnt. Beth am ddefnyddio pin ffeltiau i greu rhai marciau a siapiau ar y papur cyn i chi eu torri.



**Step 3.**
Using the pencil and coloured paper draw 5 wings, make sure you use different coloured paper. Think about different shapes, half circle, triangle,oval, diamond. Why no t use felt-tips to create some marks and shapes on the paper before you cut them.

**Cam 4.**
Gan ddefnyddio siswrn, torrwch siapiau'r adenydd allan yn ofalus, gwnewch yn siŵr bod oedolyn yn eich helpu gyda hyn.



**Step 4.**
Using a pair of scissors cut the wing shapes out carefully, make sure an adult helps you with this.

Cam 5.
Gan ddefnyddio'r pensil eto a'r papur lliw lluniwch siapiau ar gyfer pigau a chynffonau. Meddyliwch am wahanol siapiau, trionglau, hanner cylchoedd. Beth am ddefnyddio pin ffeltiau i greu rhai marciau a siapiau ar y papur cyn i chi eu torri.



Step 5.
Using the pencil again and the coloured paper draw shapes for beaks and tails. Think about different shapes, triangles, half circles, circles, rectangles, lines, curvy lines. Why not use felt-tips to create some marks and shapes on the paper before you cut them.

Cam 6.
Gan ddefnyddio siswrn, torrwch y siapiau cynffonau a phigau allan yn ofalus, gwnewch yn siŵr bod oedolyn yn eich helpu gyda hyn.




Step 6.
Using a pair of scissors cut the tails and beaks shapes out carefully, make sure an adult helps you with this.

Cam 7.
Nawr rydych chi'n barod i greu eich delwedd, yn gyntaf gosod eich siapiau adar mewn llinell neu mewn twr neu gylch. Nawr meddyliwch ble i roi'r adenydd, y pigau a'r cynffonau. Meddyliwch am gymysgu'r lliwiau.

Step 7.
Now you are ready to create your image, first lay down your bird shapes in a line or tower or circle, you choose. Now think about where to put the wings, beaks and tails. Think about mixing the colours.

Cam 8.
Unwaith y byddwch chi'n hapus gyda'r ddelwedd mae'n bryd gludo popeth i lawr gan ddefnyddio ffon glud neu glud PVA gyda brwsh.


Waw! Mae hynny'n edrych yn wych, dyma rai syniadau ychwanegol i chi. Beth am ychwanegu brigyn neu ddeilen neu batrymau a siapiau ffynci gan ddefnyddio papur neu ffeltiau ar ben eich darlun i'w wneud yn wirioneddol yn unigryw.





Step 8.
Once you are happy with the image it's time to glue everything down using a glue stick or PVA glue with a brush/applicator.

Wow! That looks great, here are some extra ideas for you. Also why not add a branch or leaf or funky patterns and shapes using paper or felt-tips on top of your collage to truly make it your own









galeri

# #HER GALERI

NID OES ANGEN I'R CYFNOD CLO NA CHANLLAWIAU EIN NADU RHAG BOD YN GREADIGOL...

RYDYM YN AWYDDUS GWELD EICH CREADIGRWYDD DRWY GYFLWYNO DARN O WAITH YN YMATEB I'R PWNC CYSGODION. DOES DIM FFINIAU – Y CWBL SYDD EI ANGEN YDI'CH DYCHYMYG A CREADIGRWYDD. EWCH ATI HEFO'CH:

*CAMERA * FFÔN SYMUDOL *BRWSH PAENT *PENSIL *CAMERA FIDEO *OFFERYN CERDD *SIARCOL *CYFRIFIADUR

COFIWCH RANNU EICH GWAITH ARLEIN (INSTAGRAM / TWITTER) GAN DDEFNYDDIO #HERGALERI NEU DRWY EBOSTIO HER@GALERICAERNARFON.COM

THE LOCKDOWN AND GUIDELINES DON'T STOP US FROM BEING CREATIVE...

WE'RE KEEN TO SEE YOUR CREATIVE WORK IN OUR FUN CHALLENGE TO PRESENT A PIECE OF WORK ON THE THEME SHADOWS. THERE IS NO RESTRICTION IN TERMS OF ART-FORM, ALL YOU NEED IS TO USE YOUR IMAGINATION AND CREATIVE SPIRIT. GO FOR IT WITH YOUR:

*CAMERA *MOBILE PHONE *PAINT BRUSH *PENCIL *VIDEO CAMERA *MUSICAL INSTRUMENT *CHARCOAL *COMPUTER

REMEMBER TO SHARE YOUR WORK ONLINE (INSTAGRAM / TWITTER) USING #HERGALERI
OR EMAIL US HER@GALERICAERNARFON.COM



# AGORED21

Mwy o fanylion / More information
galericaernarfon.com/agored2021

ailGREU
reCREATE









Yn ystod 2019 a 2020 fe wnaethom gydlynnu prosiect celf gyda unigolion oedd yn defnyddio gwasanaethau yr elusennau Kaleidoscope a Jigsaw (CAIS) yng Ngwynedd, Môn a Chonwy.



Roedd y prosiect yn rhoi ddatblygu sgiliau, hyder a darparu cyfle i 30 o unigolion oedd â hanes o ddibynniaeth /camddefnydd sylweddau gael bod yn greadigol dan arweiniad artistiaid proffesiynol – Anna Pritchard a Iolo Penri. Mae arddangosfa o waith y grwp i'w weld yn adeilad Galeri yn cyntedd ac ar y waliau yn y Café Bar ac yno tan Gwanwyn.





"Mae'r prosiect wedi bod yn hynod lwyddianus. Mae'r criw wedi bod yn mynychu'r sesiynau ac wedi bod yn ymroddgar iawn. Mae hi'n bleser gweld y gwaith gorffenedig yn Galeri. Heb nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru a'r ymrwymiad gan yr unigolion – fyddai'r prosiect heb allu digwydd".

*Rebecca Hardy-Griffith*









During 2019 and 2020, Galeri coordinated an arts project tailored for individuals who were part of the Kaleidoscope and Jigsaw (CAIS) schemes in Gwynedd, Môn and Conwy.

The purpose of the project was to develop skills, empower and provide 30 individuals who previously had a history of substance dependency/misuse to be creative under the guidance of professional artists Anna Pritchard and Iolo Penri. An exhibition of the work of the group is on display inGaleri – in the foyer and Café Bar until Spring.








"I've never tried anything like this before, it was great and I found it very therapeutic. I enjoyed the lino cutting so much I bought myself equipment so I could continue to develop my skills and be creative at home"

*Member of JIGSAW*

galeri
JIGSAW service user group
Kaleidoscope EST. 1968 Gogledd Cymru / North Wales
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

galeri

Diolch yn fawr
Thank you very much

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL